# Cyfarfod 17 y Grŵp Ecosystemau Coetir
# Yr Hen Felin Lifio, Tregynon
# Dydd Iau, 11 Rhagfyr 2014

Yn bresennol

Chris Tucker (CT) – Cyfoeth Naturiol Cymru
David Jenkins (DJ) – Coed Cymru
Richard Jones (RJ) – Cyfoeth Naturiol Cymru
Fiona McFarlane (FM) – Llywodraeth Cymru
Nigel Ajax-Lewis (NAL) – Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru
Dave Lamacraft (DL) – Plantlife/RSPB
Laura Shewring (LS) – Coed Cadw
Rory Francis (RF) – Coed Cadw

## 1. Croeso ac ymddiheuriadau

Ymddiheuriadau

Jerry Langford – Coed Cadw
Jim Latham – Cyfoeth Naturiol Cymru
Elen Richards – Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

## 2. Ymateb i reoli Chalara

Cafwyd trafodaeth ynghylch pa mor gyflym y mae'n debygol y bydd Chalara yn effeithio ar ynn yng Nghymru. Mae'r arwyddion presennol yn awgrymu y gwelir dirywiad araf. DJ – mae'r onnen yn ymatebol o safbwynt ei gallu i luosogi ac esblygu, felly mae'n bosibl y bydd yn addasu ac yn dechrau gwrthsefyll yr haint. DL – gallai'r ferhelygen fod yn rhywogaeth amgen ar gyfer cymuned Lobaria sy'n defnyddio'r onnen.
DJ – arallgyfeirio gan ddefnyddio'r bisgwydden deilen fach ac eraill (e.e. llwyfenni). FM – defnyddio ystod o rywogaethau. Cododd DJ y mater sy'n ymwneud â'r graddau y mae stoc plannu ar gael ar gyfer rhywogaethau.
Awgrymodd CT y dylai'r Grŵp Ecosystemau Coetir lunio nodyn ar gyfer swyddogion bioamrywiaeth ac ati ynghylch sut i wella gallu coetiroedd i wrthsefyll Chalara. Roedd yr aelodau o blaid hynny. (Diweddariad – mae Fiona wedi sôn bod y grŵp Iechyd Planhigion yn awyddus i ni lunio nodyn o'r fath.)
FM – mae gan y grŵp Iechyd Planhigion (Llywodraeth Cymru) gynllun rheoli iechyd coed ar gyfer Chalara.
Pwynt Gweithredu 1 – FM a CT i holi Terry O'Keefe a Chris Jones ynghylch y cynllun rheoli.
Pwynt Gweithredu 2 – CT i ychwanegu'r dasg o lunio nodyn cyfarwyddyd at gynllun gwaith y Grŵp Ecosystemau Coetir ar gyfer 2015.

## 3. Fforwm Coed Hynafol (Chris Tucker) a darparu cymorth i berchnogion (Jerry Langford)

Mae Tracey Lovering wrthi'n sefydlu cangen Cymru o'r Fforwm Coed Hynafol. Tybed a allai'r aelodau roi gwybod i'r bobl yng Nghymru y mae ganddynt gysylltiadau â nhw ac a allai fod â diddordeb yn hynny? Gellid

rhoi gwybod i'r sawl sydd ar restr gwirfoddolwyr Coed Cadw ar gyfer yr Helfa Coed Hynafol, a byddai gwaith yr ymgyrch Coed Pwysig Iawn yn gyfraniad defnyddiol.

- Cymorth i berchnogion – nododd Coed Cadw fod diffyg cymorth i berchnogion ynghylch rheoli coed hynafol. Dywedodd DJ wrth y grŵp fod elfen o Glastir Uwch yn berthnasol i goed hynafol. RF – bydd Chris James (Llywodraeth Cymru) yn llunio papur i Weinidogion. Mae gan Lywodraeth Cymru grŵp gorchwyl a gorffen, 'Diogelu coed hynafol a choed treftadaeth Cymru ymhellach' – mae NAL ac RF yn aelodau o'r grŵp.

Pwynt Gweithredu 3 CT – codi'r mater gyda'r Grŵp Ecosystemau Tir Fferm Amgaeëdig.

Pwynt Gweithredu 4 Pawb – ymwneud â Tracey Lovering ynghylch y Fforwm Coed Hynafol.

Fforwm Coed Hynafol Cymru

*I bawb sydd â diddordeb mewn coed hynafol neu hynod yng Nghymru: estynnir gwahoddiad i chi ymuno â phobl o'r un anian â chi er mwyn sefydlu Fforwm Coed Hynafol i Gymru. Mae croeso cynnes i chi ymuno â'r Fforwm, p'un a yw eich diddordeb yn un arbenigol neu'n un cyffredinol, a ph'un a ydych yn hoffi tynnu lluniau o goed hynafol neu hynod, cofnodi nodweddion neu rywogaethau cysylltiedig, cynnal arolygon neu wneud dim byd mwy na'u hedmygu a myfyrio yn eu cylch! Gallwn sicrhau bod y grŵp mor anffurfiol ag yr hoffech iddo fod, a gall gynnwys ystod o weithgareddau neu ganolbwyntio'n syml iawn ar chwilio am goed gwych. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â: Tracey Lovering* t.lovering@btinternet.com

Pwynt Gweithredu 5 CT i ysgrifennu at Chris James ynghylch cynnydd y grŵp gorchwyl a gorffen.

## 4. Strategaeth ar gyfer Rhododendron

Mae Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru wedi gofyn i CT sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen er mwyn datblygu Strategaeth i Gymru ar gyfer Rhododendron. Gofynnir am enwau'r sawl a fyddai â diddordeb mewn bod yn aelod o'r grŵp.

Cwestiynau i'w hystyried: Sut y mae'r mater hwn yn cyd-fynd â strategaeth ehangach ar gyfer Rhywogaethau Estron Goresgynnol? Beth yw effeithiau rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd ynghylch Rhywogaethau Estron Goresgynnol?

Pwynt Gweithredu 6 Pawb i ymateb i CT a chynnig enwau pobl a allai fod yn aelodau o'r grŵp.

## 5. Gweithgor y Cynllun Datblygu Gwledig / Glastir

Mae J Langford yn awgrymu bod angen gweithgor i lywio'r modd y caiff y system grantiau ei dylunio. Byddai hynny'n rhywbeth sydd ar wahân i Grŵp Rhanddeiliaid Rheoli Coetiroedd Glastir.

DJ – Mae'r cyfarfodydd i randdeiliaid wedi bod yn cael eu harwain gan asiantaid coedwigoedd ond mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Undeb Amaethwyr Cymru a Confor yn mynychu'r cyfarfodydd erbyn hyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen am weithgor, ond nid ar hyn o bryd. Dylai unrhyw syniadau ynghylch y modd y dylai cynllun coetiroedd Glastir gael ei ddylunio gael eu cyflwyno i Bill McDonald.
Teimlid bod angen i gynllun coetiroedd Glastir fod yn seiliedig ar gynlluniau rheoli, fel yr oedd y cynllun Coetiroedd Gwell i Gymru.
FM – ni fydd y cyhoeddiad ynghylch y taliad sylfaenol yn cynnwys coetir.
Bydd canopi sy'n cyfateb i lai na 100 o foncyffion/hectar yn cael ei ddefnyddio, a bydd lluniau o'r awyr yn cael eu defnyddio. Prysgwydd/tir wedi'i orchuddio gan redyn.

Mae Bill McDonald yn gweithio ar hyn. O gael y rheoliad hwn, sut y gallwn ei weithredu? Mae angen cael cymeradwyaeth yr Undeb Ewropeaidd.
Yr Undeb Ewropeaidd – mesur gwyrddu – porfeydd parhaol.
Mae Llywodraeth Cymru yn herio hynny.
Mae Coed Cymru a Llywodraeth Cymru yn gweithio ar lunio achos dros gael categori arbennig ar gyfer coed pori/Ffridd.

## 6. P.ramorum – Cyngor ynghylch arfer gorau o ran ailstocio, tîm Coed Cadw ar gyfer adfer Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol yng Nghymru

Rhannodd LS rywfaint o brofiad y prosiect adfer Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol. Mae ffermwyr teuluol yn frwdfrydig ynghylch dychwelyd i ddefnyddio rhywogaethau brodorol. Nid oes gan ffermwyr wybodaeth am goedwigaeth.
Felly, mae Coed Cadw yn sicrhau bod perchnogion yn fwy ymwybodol o opsiynau rheoli o safbwynt adfer planhigfeydd yn raddol.
DJ – coedcae/Ffridd – ailstocio safleoedd llarwydd fel pe na baent yn goetiroedd o'r blaen.
Mae DJ yn awgrymu bod disgrifiad arall i'w gael o'r safleoedd hyn, sef coedcae.

CT – eglurodd rai problemau ynghylch ailstocio safleoedd llarwydd sy'n gysylltiedig â Phlanhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol: diffyg stoc plannu, nifer yr hectarau, y graddau y mae stoc ar gael.

Defnyddio Cypermethrin / cemegolion.
Problem o safbwynt Hylobius – a roddir y gorau i ddefnyddio cypermethrin?

LS – ai'r cynllun ar gyfer gwaredu llarwydd yw llwyrgwympo'r llarwydd i gyd hyd yn oed lle nad oes haint?
Pwynt Gweithredu 7 – CT i edrych ar fanylion y cynllun adfer ar gyfer Phytophthora.

Awgrymwyd cyfuniadau plannu er mwyn adfer gorchudd ar safleoedd cyn gynted ag sy'n bosibl.
DJ – ni fydd y cyfnod byrrach ar gyfer creu canopi, sef 2-3 blynedd, yn sgil plannu cyfuniadau o rywogaethau anfrodorol/brodorol yn effeithio ar y nodweddion sy'n weddill.

Canllawiau ynghylch ailstocio llarwydd ar safleoedd Ffridd.
Cododd DJ fater sy'n ymwneud â chyll/prysgwydd ar Restr Coetiroedd Hynafol 2011.

- Canllawiau i'r canlynol:
  - cynllunwyr Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch achosion o ailstocio llarwydd
  - y sector preifat ynghylch Glastir.
- Pa ganllawiau? Mapiau Ffridd (Cyngor Cefn Gwlad Cymru)

Pwynt Gweithredu 8 – DJ i ddrafftio nodyn ynghylch yr uchod.

7. Data mapiau coed, Cymru
Cododd Jerry Langford y mater hwn er mwyn cael barn y grŵp ynghylch y ffordd orau o'i ddefnyddio. Roedd y grŵp yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol.
Pwynt Gweithredu 9 – Jerry i ddarparu rhagor o fanylion ynghylch pa ddata sydd ar gael a faint y byddai'n ei gostio.

8. Adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch gorchudd coed mewn trefi a dinasoedd
Mae Coed Cadw yn cynnal ymgyrch yn 2015 ynghylch coed mewn trefi a dinasoedd, ac mae'n gofyn i Lywodraeth Cymru gefnogi coed o'r fath.
Dolen gyswllt: (Jerry , can you provide link please?)

9. Unrhyw fater arall

DJ – Prosiect Cronfa Natur Coed Cymru: mae wedi cael llawer o awgrymiadau ynghylch safleoedd ond mae'n barod i groesawu rhagor. Bydd y prosiect yn creu cynllun pum mlynedd er budd pridd a dŵr, ar sail camau gweithredu Glastir ar gyfer cyflawni. Gareth Davies neu DJ yw'r bobl gyswllt.

DL – cynnig i Gronfa Dreftadaeth y Loteri gyda Plantlife/RSPB a SNH; mae'n cynnwys ACA/Ardal Planhigion Pwysig Meirionnydd. Mae'n canolbwyntio ar waith rheoli rhododendron, gan ganolbwyntio ar ddalgylch afon Mawddach.
Cronfa'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil – mae'r gwaith arolygu ym Meirionnydd sy'n ymwneud â chennau a bryoffytau yn mynd yn ei flaen yn dda iawn.

NAL – Adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ynghylch Rhywogaethau Estron Goresgynnol – mae Atodlen 9 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad yn cael ei hadolygu.
RF – rhagwelir y bydd derw'n debygol o fod yn brin yn 2016/17 oherwydd blynyddoedd gwael ar gyfer mes. Beth yr ydym yn ei argymell fel rhywogaeth amgen?

DJ – defnyddio rhywogaethau arloesi i ddechrau ac, yna, plannu derw ychwanegol yn y drydedd neu'r bedwaredd flwyddyn.
FM – Cyngor FR yw peidio â defnyddio derw'r bloc dwyreiniol gan fod yr hinsawdd gyfandirol yn rhy annhebyg i'n hinsawdd gyfanforol ni ac na fyddant felly'n addas.
DJ – hau'n uniongyrchol gan ddefnyddio tiwbiau cwils.

- Awgrym ynghylch perllan hadau derw Future Forests sy'n addas ar gyfer Q. petraea. Jerry Langford drwy ebost – 'Beth arall y gellir ei wneud i sicrhau cyflenwadau o hadau coed yn y dyfodol? Rydym yn cynnig tir i Future Forests ar gyfer perllannau hadau derw. Mae'r cwmni yn chwilio am safle addas ar gyfer perllan Q. petraea yng Nghymru, ar ôl gwrthod y tir sydd ar gael gennym gan ei fod yn fwy addas ar gyfer Q. robur. Byddwn i'n barod i drosglwyddo unrhyw awgrymiadau ynghylch safleoedd i'r cwmni.
- A oes unrhyw dystiolaeth bod y gronfa enynnau ar gyfer Q. petraea yng Nghymru yn wahanol i'r gronfa enynnau mewn mannau eraill?' [Cyfieithiad]

RJ – Disgwylir i'r adolygiad o gynlluniau rheoli ACA gael ei gwblhau erbyn diwedd 2015 (prosiect Life Natura 2000).

10. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf
18 Mawrth 2015 – lleoliad i'w gadarnhau.